# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**Trwy Teams**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Iau, 9 Rhagfyr 2021**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**


Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG


Dyddiad Cyhoeddi


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk


Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

## AGENDA

| 1. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | COFNODION |
|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir.
(Tudalennau 1 - 36)

| 3. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB |
|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant gan Aelodau mewn perthynas ag eitemau i'w hystyried ar yr agenda.

| 4. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

| 6. | BRIFF GAN Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Derbyn briff gan y Prif Weithredwr.

| 7. | ADRODDIAD MONITRO ESTYN |
|---|---|

Nodi canfyddiadau Ymweliad Monitro Estyn.
(Tudalennau 37 - 44)

| 8. | TROSGLWYDDIADAU'R GYLLIDEB |
|---|---|

Ystyried trosglwyddiadau'r gyllideb sydd angen cymeradwyaeth y Cyngor. Adrodd i'r Cabinet ynghylch pwysau cyllidebol yn y Gwasanaethau Plant, sydd ynghlwm.
(Tudalennau 45 - 56)

| 9. | ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL |
|---|---|

Derbyn ac ystyried Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.
(Tudalennau 57 - 104)

| 10. | TREFNIADAU AR GYFER DATBLYGU, CYFLWYNO AC YSTYRIED CYNIGION AMGEN AR GYFER Y GYLLIDEB |
|---|---|

Ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151.
(Tudalennau 105 - 108)

| 11. | DIWYGIADAU I'R CYFANSODDIAD |
|---|---|

Ystyried adroddiadau gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.
(Tudalennau 109 - 428)

| 12. | DIWYGIADAU I'R CYTUNDEB RHWNG AWDURDODAU O BARTNERIAETH PENSIWN CYMRU |
|---|---|

Ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151.
(Tudalennau 429 - 442)

| 13. | PENODIADAU I GYRFF A PHWYLLGORAU ALLANOL |
|---|---|

Nodi'r penodiadau canlynol a wnaed gan grwpiau gwleidyddol ac a gymeradwywyd gan y Swyddog Monitro:

Penodwyd y Cynghorydd Gwilym Williams i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn lle'r Cynghorydd Jon Williams.

Penodwyd y Cynghorydd Karl Lewis i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn lle'r Cynghorydd Iain MacIntosh.
Penodwyd y Cynghorydd Ange Williams i'r Pwyllgor Cyflogaeth ac Apeliadau yn lle'r Cynghorydd Jon Williams.

| 14. | RHYBUDD O GYNNIG - CEFNOGAETH I'R SECTOR AMAETHYDDOL |
|---|---|

Mae'r sector amaethyddol o'r pwys mwyaf i'n heconomi ac i gymunedau Powys fel y nodir ar y map hwn. Gyda 9.5 miliwn o ddefaid yng Nghymru mae'r prisiau a roddir am un o'r prif gynhyrchion naturiol, sef gwlân, wedi bod yn isel iawn yn ddiweddar.

Mae gennym ganolfannau graddio gwlân yn y Drenewydd ac Aberhonddu, ac mae'r sector defaid o bwysigrwydd enfawr ym Mhowys. Mae gwlân hefyd yn gynnyrch naturiol, sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd ac yn ddeunydd gwrth-dân.

O ystyried hyn, mae'r Cyngor yn cynnig bod yr awdurdod, fel rhan o fargen Twf Canolbarth Cymru, yn edrych ar gyfleoedd i ychwanegu gwerth at ein cynhyrchion amaethyddol ac yn benodol i weithio gyda'r undebau ffermio a Bwrdd Marchnata Gwlân Prydain gyda'r bwriad o hwyluso sefydlu'r hyn sy'n cyfateb i WRONZ, Sefydliad Ymchwil Gwlân Seland Newydd yng Nghanolbarth Cymru, a thrwy hynny fod yn gatalydd ar gyfer syniadau a chynhyrchion arloesol a chwmnïau deilliedig masnachol gan ddefnyddio gwlân.

Cynigydd - Y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan
Eilydd - Y Cynghorydd Sir Bryn Davies

| **GOBLYGIADAU O RAN COSTAU** |
|---|
| Derbyniwyd y cynnig hwn cyn ei fod yn ofynnol i gael asesiad ariannol. |

(Tudalennau 443 - 444)

| 15. | RHYBUDD O GYNNIG - COEDWIGO CYFRIFOL - DULL CYNALIADWY AC NAD YW'N YMELWA |
|---|---|

Mae'r Cyngor yn mynegi ei bryder ynghylch y ffaith fod cwmnïau rhyngwladol yn prynu ffermydd teuluol ym Mhowys ac yn ehangach i blannu coed at y diben o greu 'credydau carbon' sy'n cael eu gwerthu i gwmnïau sy'n llygru i gyrraedd eu targedau gwrthbwyso carbon.

Wrth dderbyn bod plannu coed ar raddfa fawr yn cael ei gydnabod fel un ffordd o frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd, mae'r Cyngor yn gresynu bod gwrthbwyso carbon yn caniatáu i'r cwmnïau hyn sy'n allyrru llawer o garbon barhau â'u hymddygiad anghynaliadwy.

Ymhellach, mae'r Cyngor yn nodi bod cwmnïau rhyngwladol eisoes wedi hawlio dros £1.3m o gyllid Llywodraeth Cymru trwy gronfa Glastir - Creu Coetir, sy'n golygu bod trethdalwyr Cymru yn sybsideiddio rhaglenni gwrthbwyso carbon cwmnïau o'r tu allan i Gymru.

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r egwyddor o goedwigo cyfrifol ond mae'n credu bod yn rhaid gwneud hyn mewn ymgynghoriad â chymunedau lleol, ac na ddylai gael effaith niweidiol ar gyflogaeth, diwylliant a hyfywedd cymunedol lleol.

Mae'r cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

- Sicrhau mai dim ond ffermwyr actif yng Nghymru a all hawlio cyllid trwy gynllun Glastir - Creu Coetir
- Cyflwyno deddfwriaeth datblygu cynllunio i alluogi awdurdodau cynllunio lleol fel Powys i reoli prosiectau coedwigo, ac i osod terfyn ar gyfran y tir ar unrhyw fferm y gellir ei defnyddio ar gyfer coedwigo heb fod angen caniatâd cynllunio
- Cyflawni ei gynlluniau coedwigo trwy ddatblygu cwmni hyd braich dan berchnogaeth gyhoeddus i reoli coedwigaeth Cymru a helpu i gyrraedd targedau lleihau carbon Llywodraeth Cymru

Mae'r Cyngor yn cydnabod barn ymgyrchwyr amgylcheddol nad yw plannu coed yn unig yn mynd i fod yn ddigon i osgoi newid yn yr hinsawdd ac mae'n cytuno mai dim ond gostyngiad cyflym mewn llosgi tanwydd ffosil sy'n gallu atal y cynnydd parhaus a brawychus mewn tymereddau byd-eang.

Cynigydd - y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan
Eilydd - y Cynghorydd Sir Emily Durrant

**GOBLYGIADAU O RAN COSTAU**

Mae'r Dirprwy Bennaeth Cyllid yn cadarnhau na fydd unrhyw ganlyniad ariannol o'r cynnig arfaethedig gan ei fod ond yn gofyn bod gohebiaeth â Llywodraeth Cymru am y sefyllfa a nodir uchod. Ni ddisgwylir unrhyw gamau gweithredu na chostau pellach.

| 16. | RHYBUDD O GYNNIG - NEWID SYLWEDDOL O RAN GWEITHREDU YNGHYLCH YR HINSAWDD A MABWYSIADU'R SAFON UN BLANED |
|---|---|

**Mae'r Cyngor hwn yn nodi:**

Mae gan y Cyngor gyfle i wneud newid sylweddol wrth ymdrin â'r argyfwng sy'n ein hwynebu; mae'r cynnydd wedi bod yn arafach nag yr oedd preswylwyr a rhanddeiliaid yn ei ragweld ac mae'r monitro a'r adborth wedi bod yn llai tryloyw nag y byddent wedi'i ddymuno.

Mae angen gweithredu'n gyflymach ac yn fwy agored i ymdrin â'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol. Bydd uchelgais ac arweinyddiaeth y Cyngor yn allweddol i fynd â'n rhanddeiliaid cymunedol a lleol gyda ni i gyrraedd y targed a osodwyd ym mis Medi 2020 o Sero Net erbyn 2030.

Nid oedd gan bobl, yn dilyn cynhadledd ryngwladol COP26 yn Glasgow, unrhyw amheuaeth ynghylch difrifoldeb a natur argyfyngus y sefyllfa i gymunedau gartref a thramor. Nid yw ein hymateb yn gofyn am ddim llai na newid diwylliannol i'r sefydliad cyfan lle rydyn ni'n dweud yn glir beth rydyn ni'n ei wneud ac yn gwneud yr hyn rydyn ni'n ei ddweud, gan ysbrydoli eraill i weithredu hefyd.

Mae Cyngor Abertawe yn treialu menter newydd - Safon Un Blaned, a lansiwyd mewn pryd ar gyfer COP26, sydd wedi'i chynllunio i gefnogi sefydliadau fel ein un ni i addasu ein gweithgareddau i gyd-fynd â'n dyheadau amgylcheddol. Gyda chefnogaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Sophie Howe, gallai'r Safon Un Blaned helpu Cyngor Powys i ddod yn effeithlon o ran ein defnydd o adnoddau, datblygu llwybrau economaidd cylchol gydag ymgysylltiad gweithwyr, cadwyni cyflenwi, cwsmeriaid ac unrhyw un y mae ein gweithgareddau yn effeithio arnynt. Mae'r Safon Un Blaned yn cefnogi gwelliant parhaus, gyda chylch o gamau syml sef **Cynllunio> Gwneud> Gwirio> Gweithredu** wedi'u gosod yn erbyn ein nodau, ein cerrig milltir a'n graddfeydd amser ein hunain. Yn ei hanfod, methodoleg integredig ydyw ar gyfer adrodd i gynorthwyo sefydliad i fesur, rhoi cyfrif am, a gwella effaith amgylcheddol ei weithgareddau. Byddai'r Safon Un Blaned yn cofleidio'r pum ffordd o weithio:

**Tymor Hir** - cydbwyso anghenion tymor byr gyda diwallu anghenion tymor hir.

**Atal** – gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, gan ddefnyddio'r egwyddor ragofalus.

**Integreiddio** - ystyried sut mae holl weithredoedd Powys yn effeithio ar ei gilydd, ar y nodau cymdeithasol ac ecolegol, ac ar fuddiannau a gweithredoedd rhanddeiliaid.

**Cydweithio** - gydag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau) a allai helpu Powys i gyflawni ei amcanion a'i nodau cymdeithasol ac ecolegol.

**Cynnwys** - cynnwys ystod eang o bobl wrth gyflawni ei nodau cymdeithasol ac ecolegol, gan sicrhau bod y bobl hynny yn dod o Bowys ac yn adlewyrchu ei amrywiaeth.

Bydd deall a mabwysiadu gofynion y Safon Un Blaned yn helpu'r Aelod Portffolio ar faterion yr hinsawdd a'r argyfwng ecolegol, ac aelodau eraill y Cabinet i bennu cyfeiriad strategol, a'r uwch dîm rheoli i weithredu newid, wrth helpu staff i newid y diwylliant corfforaethol. Bydd ein partneriaid a'n cwsmeriaid yn gwerthfawrogi ein huchelgeisiau yn well ac yn dewis ymuno â ni ar y daith hon.

**Mae'r Cyngor hwn yn galw am:**

Bwysleisio ei ddatganiad o argyfwng hinsawdd ym mis Medi 2020, ei benderfyniad ynghylch gwaredu [asedau] yn 2018 a'i waith ynghylch y Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol sy'n bwysig o ran adrodd ar Adran 6 y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau.

**Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:**

- Galw ar aelod y cabinet dros Newid Hinsawdd am newid sylweddol a gweladwy mewn gweithgaredd sy’n angenrheidiol i gyflawni ymrwymiad Powys i gyrraedd ei darged sero net erbyn 2030, gan gyhoeddi’r asesiad llinell sylfaen a gytunwyd a’r Cynllun Gweithredu ar gyfer lleihau carbon er mwyn i aelodau, rhanddeiliaid a thrigolion ei asesu ar frys.

- Dod yn ail Gyngor yng Nghymru i dreialu’r Safon Un Blaned cyn gwneud penderfyniad, ar ôl Mai 2022, ynghylch a ddylid ei fabwysiadu'n ffurfiol fel ffordd newydd o weithio.

- Gofyn i Gadeirydd Cronfa Bensiwn Powys alw ar Gronfa Bensiwn Cymru i ddefnyddio’r pŵer sydd ganddi, gan gynnwys ei dylanwad fel un o gronfeydd pensiwn mwyaf y DU, i annog gwaredu [asedau] fel y cytunwyd yng nghynnig 2018.

Cynigydd - y Cynghorydd Sir Jackie Charlton
Eiliydd - y Cynghorydd Sir Jake Berriman

| **GOBLYGIADAU O RAN COSTAU** |
|---|
| Nid oes unrhyw oblygiadau o ran costau yn deillio o'r cynnig hwn gan fod deilydd y Portffolio eisoes wedi cadarnhau parhad o’r cyllid ar gyfer y Swyddog Newid Yn yr Hinsawdd.<br><br>Mae'r Safon Un Blaned yn rhad ac am ddim i'w defnyddio, er fod achrediad yn costio rhwng £675 ac £1,688 yn ôl maint y sefydliad a'r lefel dyfarnu - Efydd, Arian ac Aur. Fodd bynnag, gellid disgwyl i fanteision gynnwys mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gorfforaethol, gwell cymhelliant staff, arbedion a mwy o effeithlonrwydd, gwella tryloywder ac ymgysylltu â'r cyhoedd.<br><br>Rydym eisoes wedi cytuno fel cyngor i gyflawni'r nod Sero Net felly bydd yr holl gyllidebu'n cael ei integreiddio gan ystyried y mesurau hyn.<br><br>Mae'r adroddiad ar y Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol wedi'i ymgorffori yn Dyletswydd Statudol Adran 6 o'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau felly ni fydd cost ychwanegol i'r mesur hwn.<br><br>Nod y Cynnig Dadfuddsoddi yn 2018 oedd cyflawni'r trydydd penderfyniad sydd heb ei gyflawni eto ac nid oes ganddo unrhyw oblygiadau o ran costau.<br><br>Dylai camau gweithredu hefyd arwain at arbedion. |

| **17.** | **RHYBUDD O GYNNIG - RHUBAN GWYN: DIWYLLIANT AC YMARFER** |
|---|---|

**Mae'r Cyfarfod Cyngor hwn yn nodi: -**

- Hyrwyddodd Joyce Watson, Aelod o'r Senedd dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru achos y Rhuban Gwyn, fel arweinydd menter drawsbleidiol, yn gynnar yn y Pedwerydd Cynulliad / Senedd. Cynrychiolodd y Cynghorydd William Powell Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru mewn gwylnosau a digwyddiadau eraill ar ran Joyce Watson ac fe wnaeth gwrdd â llawer o bobl wahanol oedd wedi goroesi. Mae arweinyddiaeth barhaus Joyce gyda'r mater hwn hyd heddiw yn dal i fod yn rhan bwysig o fusnes y Senedd;
- Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi codi proffil cam-drin domestig, rheolaeth orfodol a thrais yn erbyn menywod. Mae Prif Gwnstabl newydd Heddlu Dyfed-Powys, Richard Lewis, sydd ar hyn o bryd yn Brif Gwnstabl Cleveland, wedi nodi cam-drin domestig a materion cysylltiedig fel blaenoriaeth uchel;
- Mae ffigurau'r ONS yn dangos y bydd bron i un o bob tair merch 16-59 oed yn profi cam-drin domestig yn ystod eu hoes, bod dwy fenyw yr wythnos yng Nghymru a Lloegr yn cael eu lladd gan bartner presennol neu gynbartner, bod dros hanner miliwn o fenywod yn cael eu treisio neu'n dioddef ymosodiad rhywiol bob blwyddyn a bod arolwg barn YouGov yn dangos bod traean o ferched wedi profi aflonyddu rhywiol mewn ysgolion;
- mae'r pandemig byd-eang wedi arwain at y ffaith fod mwy o fenywod a merched yn agored i gam-drin domestig ac, yn ôl adroddiad newyddion gan y BBC ym mis Gorffennaf y llynedd, gwelodd tri mis cyntaf y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf gynnydd o 80% yn y galwadau i'r Llinell Genedlaethol Cam-drin Domestig;
- mae adroddiad diweddar Cymdeithas Fawcett "Ymdrin ag aflonyddu rhywiol yn y gweithle" - sy'n rhoi gwybod am gamau a gymerir gan gyflogwyr i atal ac ymateb i aflonyddu rhywiol yn y gweithle, yn nodi bod dros 40% o fenywod wedi profi aflonyddu yn y gweithle a 45% wedi dioddef aflonyddu ar-lein o natur rywiol gyda'r cyfraddau ar eu huchaf ymhlith y rhai sydd â nodwedd warchodedig.
- bod dioddefwyr, yn ôl arolwg trosedd a data eraill y llywodraeth, yn dod yn anghymesur o'r grwpiau hynny sydd eisoes yn profi anghydraddoldeb a heriau ychwanegol yn ein cymdeithas, gan gynnwys y rhai sydd o hil gymysg, sydd ag anableddau, neu sy'n drawsryweddol;
- wrth i ni feddwl yn ôl at ddiwedd twrnamaint Ewro 2020 UEFA a ohiriwyd, dangosodd ymchwil flaenorol gan Brifysgol Lancaster fod digwyddiadau o gam-drin domestig y rhoddwyd gwybod amdanynt yn cynyddu pryd bynnag y bydd unrhyw un o'r cenhedloedd cartref yn chwarae mewn twrnamaint mawr, ac mae'r effaith yn arbennig o amlwg ar y dyddiau pan fydd y timau hynny'n colli; a

- goblygiadau hynod ysgytiol achos Sarah Everard a'r datgeliadau wedi hynny o ymddygiad misogynistaidd ymhlith aelodau eraill yr heddlu.

**Mae'r Cyfarfod Cyngor hwn yn nodi ymhellach:-**

- White Ribbon UK yw'r brif elusen sydd â chenhadaeth i ddiweddu ***trais dynion yn erbyn menywod*** ac mae'n rhan o'r mudiad Rhuban Gwyn byd-eang a ddeilliodd o ymgyrch a ddechreuwyd gan ddynion yng Nghanada yn 2004;
- Mae Diwrnod y Rhuban Gwyn yn cael ei nodi bob blwyddyn ar 25ain Tachwedd, y Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Dileu Trais yn erbyn Menywod, trwy annog dynion a bechgyn i addo i beidio byth â chymryd rhan, derbyn nac aros yn dawel ynghylch trais yn erbyn menywod trwy wisgo rhuban gwyn ar y diwrnod ac am wythnos neu ddwy wedi hynny; ac
- Mae White Ribbon UK, sy'n gweithio ar draws pob un o'r 3 gweinyddiaeth ddatganoledig, yn gweithredu system o Lysgenhadon gwrywaidd, Hyrwyddwyr benywaidd ac Eiriolwyr ieuenctid, yn ogystal â bod â deunyddiau penodol i gefnogi ysgolion cynradd ac uwchradd, pob un â'r nod o annog dynion / bechgyn i gymryd yr addewid a helpu i ddileu trais dynion yn erbyn menywod.

Mae'r Cyfarfod Cyngor hwn yn credu na ellir byth esgusodi trais gwrywaidd yn erbyn menywod ac y dylai Cyngor Sir Powys wneud popeth yn ei allu i sicrhau bod menywod yn ddiogel. Mae gan yr Awdurdod bolisi cryf ynghylch diogelu menywod yn y gweithle ac yn y cymunedau y mae'n eu cefnogi. Mae hyfforddiant yn orfodol i staff a chynghorwyr. Fel rhan o'r cynnig hwn gofynnwn i'r cyngor hwyluso ac annog cynghorwyr, staff ac ysgolion i gymryd rhan yn Ymgyrch y Rhuban Gwyn.

**Felly mae'r Cyfarfod Cyngor hwn yn penderfynu:-**

1. cofleidio diwylliant fel y gall pob Cynghorydd gwrywaidd wneud adduned y Rhuban Gwyn i beidio byth â chymryd rhan mewn, derbyn nac aros yn dawel ynghylch trais yn erbyn menywod;

2. ymgymryd â'r camau angenrheidiol cyn gynted ag sy'n ymarferol i gyflawni achrediad y Rhuban Gwyn, gan ymuno â'r nifer fawr o gyrff sector cyhoeddus gan gynnwys 4 cyngor arall yng Nghymru a Heddlu Dyfed Powys a Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd eisoes wedi gwneud hynny; ac

3. fel rhan o hyn, annog Arweinwyr pob grŵp gwleidyddol i ddod at ei gilydd i enwebu Cynghorydd gwrywaidd a'r Prif Weithredwr i enwebu aelod staff yn Llysgenhadon; nodi Diwrnod y Rhuban Gwyn ar 25

Tachwedd bob blwyddyn gyda digwyddiad codi arian; ac annog staff y cyngor ac ysgolion cynradd ac uwchradd lleol i gymryd rhan.

4. cynnal adolygiad o brotocolau a gweithdrefnau i benderfynu a yw'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldeb fel cyflogwr ag enw da yng ngoleuni argymhellion Adroddiad Fawcett ac i gyflwyno unrhyw addasiadau ar frys.

Cynigydd - y Cynghorydd Sir Pete Roberts

Eilydd - y Cynghorydd Sir Jackie Charlton

**GOBLYGIADAU O RAN COSTAU**

Mae'n anodd darganfod union gost rhoi'r awdurdod ymlaen i ennill achrediad ond byddai ffigur cyffredinol tua’r un fath ag achrediadau eraill yn ddibynnol ar y lefel. Byddai'r ffigur a awgrymir rhwng £500 a £2000. Gellid cyllidebu datganiadau i'r wasg a gweithgarwch cyfathrebu eraill o'r fath ar gyfer ffocws blynyddol ym mis Tachwedd bob blwyddyn.

Gallai camau gweithredu hefyd arwain at arbedion.

Byddai'n cefnogi gwaith sy'n cael ei wneud yn yr ysgol mewn perthynas â pholisïau Gwrth-fwlio a chodi ymwybyddiaeth.

Byddai'n cyd-fynd â ffocws y cwricwlwm newydd ar les a pherthnasoedd.

| 18. | CWESTIYNAU YN UNOL Â’R CYFANSODDIAD |
|---|---|

18.1. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Addysg ac Eiddo gan y Cynghorydd Sir William Powell**

Nodaf eich ymateb i *gwestiwn ar unrhyw bryd* y Cynghorydd Gareth Ratcliffe yn gynnar yn yr hydref am Ysgol Uwchradd Gwernyfed, lle gwnaethoch ddweud eich bod yn falch bod y tîm bellach yn gallu ailddechrau ar y gwaith ar brosiect Ysgol Uwchradd Gwernyfed.

A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf a'r amserlenni a ragwelir i'r cymunedau lleol ac i minnau? Wrth i ni symud ymlaen, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno â mi bod eglurder a thryloywder yn hanfodol i sicrhau na chollir cyfleoedd i symud y prosiect hwn yn ei flaen, cyn dyfodiad y *purdah* cyn yr etholiadau ym mis Mai 2022.
(Tudalennau 445 - 446)

18.2. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Tai, Cynllunio ac Adfywio Economaidd gan y Cynghorydd Sir William Powell**

Yn dilyn y ddadl ddiweddar ar reoli cnofilod yn y Cyngor Llawn a gyflwynwyd gan Grŵp Llafur Cymru a digwyddiadau dilynol a adroddwyd i mi yn lleol, a allech chi egluro os gwelwch yn dda:

- Pa drefniadau sydd ar waith gan Gyngor Sir Powys i ymdrin â'r goblygiadau o ran niwsans a niwed i iechyd cyhoeddus sy'n cael eu hachosi gan gnofilod mewn llety ar rent sy'n eiddo i'r Cyngor, yn benodol y rhai sydd wedi'u cynllunio ar gyfer pobl oedrannus neu fregus a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai sy'n dioddef o bryder?

- Ydy adroddiadau ynghylch pla cnofilod gan breswylwyr yn cael eu trin fel materion brys a chyda gwaith traws-bortffolio effeithiol, gan y rhai sy'n gyfrifol am Amddiffyn y Cyhoedd a Thai?

- Yn ddarostyngedig i ragofalon Covid-19 priodol, a fydd yr Aelod(au) Portffolio yn sicrhau eu bod ar gael i gwrdd â thrigolion yn ardal De Powys, sy'n cael eu heffeithio'n niweidiol gan y materion hyn?

(Tudalennau 447 - 448)

18.3. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Addysg ac Eiddo gan y Cynghorydd Ratcliffe**

A allai'r Aelod Portffolio roi gwybodaeth am y costau cynnal a chadw cyffredinol yn ôl blwyddyn ers i'r ysgolion newydd agor i gynrychiolwyr clwstwr cynradd Gwernyfed (fesul ysgol)? Mae sawl ysgol yn wynebu'r un problemau / diffygion dylunio, sy'n effeithio ar gyllidebau'r ysgolion hyn. Addawodd y broses trawsnewid ysgolion y byddai gennym ysgolion addas at y diben, ac eto mae'r un problemau'n ymddangos sy'n tanlinellu problemau gydag adeiladu a dylunio gwael ar draws y dalgylch.

A allai'r cyngor hefyd drefnu cyfarfod gyda phenaethiaid a chadeiryddion i drafod problemau sy'n parhau a nodi lle mae angen i Bowys roi cefnogaeth tuag at gostau'r effaith ariannol. Un enghraifft yw'r adeiladau newydd mewn ysgol a gafodd eu cymeradwyo fel rhai diogel, ond nodwyd bod caeadau ffenestri'r ceginau bellach yn rhai nad ydynt yn ddiogel rhag tân, felly nid ydynt yn addas at y diben. Os yw Cyngor Sir Powys o ddifrif ynghylch ei raglen ysgolion, yna mae asesiad o'r dalgylch hwn yn holl bwysig i sicrhau bod y rhaglen yn llwyddiant.

(Tudalennau 449 - 452)